OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2005 Rhif 1810 (Cy.141)

# PRIFFYRDD, CYMRU

## Rheoliadau Gwaith Stryd (Adennill Costau) (Cymru) 2005

| | | |
|---|---|---|
| *Wedi'u gwneud* | - - | *5 Gorffennaf 2005* |
| *Yn dod i rym* | - - | *8 Gorffennaf 2005* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 96 a 104(1) o Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991(**1**) ac sydd bellach yn arferadwy gan y Cynulliad Cenedlaethol o ran Cymru(**2**), drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Gwaith Stryd (Adennill Costau) (Cymru) 2005 a deuant i rym ar 8 Gorffennaf 2005.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru.

**Dehongli**

**2.** Yn y Rheoliadau hyn:

ystyr "canolfan gost" ("*cost centre*") yw uned o atebolrwydd ariannol adnabyddadwy o fewn cyfrifon rheoli hawlydd ac sy'n gyfrifol am weithgareddau penodol o fewn sefydliad hawlydd;

ystyr "cost cyfalaf" ("*cost of capital*") yw cost y cyfalaf a gyfrifir drwy gyfeirio at y gyfradd enillion a ragnodir naill ai gan ddeddfwriaeth, neu gan y rheoleiddiwr perthnasol o ran gweithgareddau rheoleiddiedig yr hawlydd (p'un a yw'r gwaith am dâl yn un o'r gweithgareddau hynny ai peidio) neu, os na ragnodir cyfradd o'r fath, drwy gyfeirio at gyfradd sy'n ddau y cant yn uwch na chyfradd ddisgownt y sector cyhoeddus fel a bennir gan y Trysorlys o bryd i'w gilydd;

ystyr "costau" ("*costs*") yw costau neu dreuliau y cyfeirir atynt yn adran 96(1) o'r Ddeddf fel rhai y mae modd i awdurdod, corff neu berson eu hadennill o dan Ran III o'r Ddeddf;

ystyr "costau uniongyrchol" ("*direct costs*") yw'r costau hynny a ddisgrifir yn rheoliad 5;

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991;

ystyr "gorbenion" ("*overheads*") yw'r costau hynny a ddisgrifir yn rheoliad 6;

(**1**) 1991 p.22.

(**2**) Mae pwerau'r Ysgrifennydd Gwladol, i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, wedi'u trosglwyddo i Gynulliad Cenedlaethol Cymru: gweler erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac Atodlen 1 iddo.

ystyr "gwaith am dâl" ("*chargeable job*") yw gwaith y mae modd adennill ei gostau o dan ddarpariaethau Rhan III o'r Ddeddf;

ystyr "gwasanaethau cymorth" ("*support services*") yw gwasanaethau a ddarperir oddi fewn i sefydliad er mwyn cynorthwyo gweithgareddau sy'n mynd i gostau uniongyrchol;

ystyr "gweithgareddau rheoleiddiedig" ("*regulated activities*") yw gweithgareddau a awdurdodir neu a reoleiddir gan drwydded ac a oruchwylir gan y rheoleiddiwr perthnasol;

ystyr "hawlydd" ("*claimant*") yw awdurdod, corff neu berson sydd â'r hawl i adennill costau o dan Ran III o'r Ddeddf;

ystyr "rheoleiddiwr perthnasol" ("*relevant regulator*") yw person, sy'n annibynnol ar yr hawlydd, ac sy'n gyfrifol am oruchwylio gweithgareddau rheoleiddiedig yr hawlydd a sicrhau bod yr hawlydd yn cydymffurfio â thelerau'r drwydded sy'n awdurdodi'r gweithgareddau hynny; ac

ystyr "trwydded" ("*licence*") yw unrhyw ffurf ar awdurdodiad, caniatâd, neu benodiad sy'n awdurdodi'r hawlydd i gynnal gweithgareddau rheoleiddiedig.

## Sail adennill

**3.** Y sail y mae symiau o gostau i'w cyfrifo arni yw'r sail a roddir yn narpariaethau canlynol y Rheoliadau hyn.

## Costau

**4.**—(1) Y costau fydd costau uniongyrchol a gorbenion i'r graddau y mae'r costau uniongyrchol hynny a'r gorbenion hynny yn berthnasol i waith penodol am dâl a chyfrifir hwynt yn unol â'r polisïau ariannol a fabwysiedir gan yr hawlydd i ddatgan canlyniadau ariannol y canolfannau cost sy'n gyfrifol am y gwaith am dâl neu am ddarparu gwasanaethau cymorth i'r canolfannau hynny.

(2) Pan fo modd adennill costau yn unol â Rheoliadau Gwaith Stryd (Rhannu Costau Gwaith) (Cymru) 2005(**3**) ("Rheoliadau 2005") mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i'r graddau y mae'r costau yn "gostau caniatadwy" fel a ddiffinnir yn rheoliad 2(2) o Reoliadau 2005.

(3) Bydd modd adennill y costau naill ai fel costau uniongyrchol o dan reoliad 5 neu fel gorbenion o dan reoliad 6, ond nid fel y ddau.

(4) Bydd y costau'n glir o unrhyw ddisgownt neu ad-daliad a ganiateir i'r hawlydd.

## Costau Uniongyrchol

**5.** Mae costau uniongyrchol yn gostau yn unrhyw un o'r pum dosbarth a bennir isod—

(a) cost staff (p'un a ydynt yn cael cyflog ai peidio) a gyflogir yn uniongyrchol gan yr hawlydd ac a gyfrifir yn unol â rheoliad 7;

(b) y costau sy'n daladwy i gontractiwr y mae'r hawlydd yn ei gymryd ymlaen;

(c) costau deunyddiau;

(ch) cost hurio cyfarpar, peiriannau a cherbydau neu, pan fo'r cyfarpar, y peiriannau neu'r cerbydau yn cael eu lesio i'r hawlydd, y gost gyfatebol seiliedig ar raddfeydd perthnasol y farchnad; a

(d) costau eraill sy'n berthnasol ac yn benodol briodoladwy i waith am dâl.

(**3**) O.S. 2005/1721 (Cy.133).

### Gorbenion

**6.**—(1) Gorbenion fydd canran briodol o'r costau uniongyrchol y cyfeirir atynt yn rheoliad 5, wedi'u cyfrifo a'u cymhwyso ar wahân ar gyfer pob dosbarth ar y costau hynny.

(2) Ystyr canran briodol at ddibenion y rheoliad hwn yw'r ganran a gyfrifir drwy gymhwyso'r fformwla:

$(b/a \times 100)$ plws
$(c/a \times 100)$ plws
$(ch/a \times 100)$

pan fo:

| | | |
|---|---|---|
| a | = | cyfanswm costau uniongyrchol pob gwaith am dâl, a gwaith heblaw gwaith am dâl, y codir ar y ganolfan gost neu'r canolfannau cost amdano, a'r ganolfan gost honno neu'r canolfannau cost hynny yn gyfrifol am y gwaith am dâl yn ystod y cyfnod diweddaraf y mae cyfrifon cyhoeddedig ar gael ar ei gyfer; |
| b | = | cost, yn ystod y cyfnod hwnnw, gwasanaethau cymorth a ddarperir o fewn y ganolfan gost neu'r canolfannau cost sy'n gyfrifol am y gwaith am dâl; |
| c | = | cost, yn ystod y cyfnod hwnnw, y gwasanaethau cymorth a ddarperir i'r ganolfan gost neu'r canolfannau cost sy'n gyfrifol am y gwaith am dâl gan ganolfannau cost eraill o fewn sefydliad yr hawlydd; a |
| ch | = | cost, yn ystod y cyfnod hwnnw, cyfalaf a dibrisiant asedau a ddefnyddir ynghyswllt costau uniongyrchol yr aeth y ganolfan gost neu'r canolfannau cost iddynt a'r ganolfan gost honno neu'r canolfannau cost hynny yn gyfrifol am y gwaith am dâl, neu gost yr aed iddi yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol wrth ddarparu gwasanaethau cymorth i'r ganolfan gost honno neu i'r canolfannau cost hynny. |

### Cyfrifo Costau Staff ac Oriau Cynhyrchiol

**7.**—(1) At ddibenion rheoliad 5(a), cyfrifir costau staff drwy gyfeirio at y gyfradd y cyflogir person arni fesul awr gan rannu amcangyfrif rhesymol o gost flynyddol cyflogi person ag oriau cynhyrchiol y person hwnnw yn ystod yr un cyfnod blynyddol.

(2) Ym mharagraff (1) uchod, ystyr "oriau cynhyrchiol" yw'r oriau hynny pryd yr amcangyfrifir yn rhesymol y bydd person wrthi'n gwneud gwaith am dâl neu waith o fath tebyg o fewn sefydliad yr hawlydd, ond nid yw'n cynnwys unrhyw gyfnodau o salwch, gwyliau, hyfforddiant neu absenoldeb arall.

### Eithriadau

**8.** Nid yw'r Rheoliadau hyn yn gymwys i gostau na threuliau y mae modd eu hadennill o ran unrhyw weithred yr ymgymerir â hi o ran trwydded o dan adran 50 o'r Ddeddf.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**4**)

*D. Elis-Thomas*

5 Gorffennaf 2005

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**4**) 1998 p.38.

---

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn rhagnodi'r sail dros gyfrifo costau neu dreuliau y caiff awdurdod, corff neu berson eu hadennill o dan Ran III o Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991.

Mae Rhan III o'r Ddeddf honno yn cynnwys nifer o ddarpariaethau sy'n rhoi hawl i awdurdod, corff neu berson gyflawni gweithredoedd ac adennill oddi wrth bartïon eraill y costau neu'r treuliau sy'n dod o ymgymryd â'r gweithredoedd hynny. Er enghraifft, os ymddengys i awdurdod strydoedd bod ymgymerwr wedi methu â chydymffurfio â'i ddyletswyddau i adfer stryd a bod y methiant hwnnw'n achosi perygl i'r sawl sy'n defnyddio'r stryd, caiff yr awdurdod wneud y gwaith y mae angen ei wneud a chaiff adennill oddi wrth yr ymgymerwr y costau yr aeth iddynt yn rhesymol wrth wneud y gwaith hwn. Mae'r Rheoliadau yn rhagnodi mai'r costau fydd costau uniongyrchol a gorbenion, ac maent yn diffinio pa ddosbarthau ar gostau uniongyrchol y gellir eu hawlio. Maent hefyd yn rhagnodi sut y mae cyfrifo gorbenion.

Nid yw'r Rheoliadau yn gymwys i gostau na threuliau y mae modd eu hadennill o ran unrhyw weithred yr ymgymerir â hi o ran trwydded a roddwyd o dan adran 50 o'r Ddeddf.